**Rebecca Evans AS/MS**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddLJC@senedd.cymru

13 Ionawr 2025

Annwyl Mike Hedges,

Diolch ichi am adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg.

Gweler yn amgaeedig fy ymateb i'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg**

**Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Ym mis Tachwedd 2024, cyflwynodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg. Mae'r adroddiad yn cynnwys 6 argymhelliad. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

## 1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 4 Medi 2024. Ar adeg ei gyhoeddi, roedd y Bil yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi. Disgwylir cyhoeddi adroddiad yr Arglwyddi ym mis Chwefror 2025.

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch marchnata neu ddefnyddio cynnyrch yn y Deyrnas Unedig a'r unedau mesur a'r symiau y mae nwyddau'n cael eu marchnata ynddynt yn y Deyrnas Unedig.

Ar ôl iddi adael yr UE, sefydlodd y DU gyfundrefn annibynnol yr oedd Llywodraeth y DU yn ystyried bod ei hangen iddi allu addasu i dechnolegau newydd, fel Deallusrwydd Artiffisial, yn ogystal ag adlewyrchu'r newid o ran yr hyn y mae defnyddwyr yn ei brynu a'r ffordd y maent yn ei brynu. Mae Llywodraeth y DU yn credu bod angen pwerau newydd arnynt i fynd i'r afael â'r bygythiadau presennol ac yn y dyfodol a sicrhau cyflenwad parhaus o nwyddau diogel.

Barn Llywodraethau'r DU a Chymru oedd bod y Bil yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd. I'r perwyl hwn gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd ar 20 Medi 2024.

Amlinellodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol nifer o resymau i Lywodraeth Cymru gefnogi'r Bil. Fodd bynnag, tynnodd sylw hefyd at y ffaith y bydd y Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn arwain at lai o bwerau i Lywodraeth Cymru gyflwyno diwygiadau mewn ystod o feysydd, o'i gymharu â'r cyfnod pan oedd y DU yn rhan o Farchnad Sengl yr UE. Felly, yn unol â'r hyn a nodwyd, mae angen ymgysylltu pellach â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r pwerau galluogi o fewn y Bil a rôl Gweinidogion Cymru a'r Senedd.

## 2. Ymateb i'r Argymhellion

### Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet barhau i ddarparu diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor a'r Senedd ar ei safbwynt mewn perthynas â'r Bil, er mwyn ei alluogi i lunio barn ynghylch a ddylai roi ei gydsyniad ai peidio.

**Ymateb: Derbyn**

Er nad oes diweddariadau sylweddol ar hyn o bryd, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd pan fydd yn gallu gwneud hynny.

Mae swyddogion yn parhau i fod wedi cael trafodaethau cadarnhaol gyda'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU i drafod opsiynau deddfwriaethol posibl. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio cael rhagor o wybodaeth am safbwynt Llywodraeth y DU yn gynnar yn 2025.

### Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddatgan:

- a yw Llywodraeth Cymru yn credu y gellid defnyddio Bil a gyflwynwyd yn y Senedd i ddiwygio'r Bil - os caiff ei ddeddfu - i'r graddau y mae'n berthnasol i feysydd datganoledig; ac
- a yw Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai dilyn dull o'r fath yn hyfyw, pe bai angen, i ddatrys ei phryderon mewn perthynas â'r Bil.

**Ymateb: Derbyn**

Byddai'r dull amlinellol yn gofyn am asesiad llawn o gymhwysedd deddfwriaethol ond pe byddai darpariaeth o'r fath o fewn cymhwysedd y Senedd, yna gallai ddiwygio deddfwriaeth Senedd y DU.

Rydym yn hyderus y bydd Llywodraeth y DU yn cyrraedd canlyniadau cadarnhaol ac felly nid ydym yn credu y bydd angen dull o'r fath.

**Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylid diwygio'r Bil i alluogi Gweinidogion Cymru i arfer y pwerau dirprwyedig sydd wedi'u cynnwys yn y Bil mewn meysydd datganoledig.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn parhau i drafod dyraniad pwerau dirprwyedig gyda Llywodraeth y DU, gyda'r bwriad o sicrhau bod datganoli yn cael ei adlewyrchu'n llawn.

**Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi'r gwahanol ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio diwygio'r Bil i sicrhau rôl i Weinidogion Cymru a'r Senedd.

**Ymateb: Derbyn**

Fel y nodwyd yn flaenorol, ymgysylltwyd â Gweinidogion a swyddogion ar y Bil hwn lle trafodwyd gwelliannau deddfwriaethol posibl.

Cyfarfu Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio â'r Arglwydd Leong ym mis Hydref, yn fuan ar ôl cyflwyno'r Bil, lle codwyd pryderon am yr angen i sicrhau bod y Bil yn cael ei ddiwygio i barchu datganoli.

Fel yr amlinellwyd yn yr ymateb i Argymhelliad 3, mae swyddogion yn parhau i gael trafodaethau cadarnhaol gyda'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU i drafod opsiynau deddfwriaethol posibl i fynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd mewn cysylltiad â'u cymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon i ddeall eu persbectif ar y Bil a'r opsiynau deddfwriaethol posibl a allai fynd i'r afael â phryderon y cenhedloedd datganoledig.

Mae Llywodraeth Cymru yn aros i glywed diweddariad gan Lywodraeth y DU ar ei safbwynt yn gynnar yn 2025 a bydd diweddariad yn cael ei roi i'r pwyllgor yn fuan wedi hynny, a fydd yn nodi'r camau nesaf mewn perthynas ag ymgysylltu pellach.

**Argymhelliad 5**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ryngweithiad y Bil â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 ac ymrwymo i ddarparu

asesiad o'r fath mewn unrhyw gydsyniad deddfwriaethol atodol a osodwyd mewn perthynas â'r Bil.

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Bwriad y Bil yw cefnogi gweithrediad esmwyth marchnad fewnol y DU, yr ydym yn cydnabod sy'n hanfodol i fusnesau a thwf ledled Cymru.

Asesiad Llywodraeth Cymru yw y byddai unrhyw reoliadau sy'n cael eu cyflwyno gan ddefnyddio’r pwerau yn y Bil yn cyd-fynd â'r egwyddorion a amlinellir yn Neddf Marchnad Fewnol y DU.

Pe bai achosion o wahaniaeth rheoleiddiol ar draws y DU mewn meysydd sy'n dod o dan y Bil, byddai Deddf Marchnad Fewnol y DU yn gymwys. Er enghraifft, efallai y bydd hyn yn gofyn am eithrio'r egwyddorion mynediad i'r farchnad yn y Ddeddf.

Mae gennym bryderon am y ffordd y ceisiodd Llywodraeth flaenorol y DU ddefnyddio Deddf Marchnad Fewnol y DU i osod dewisiadau polisi ar gyfer Lloegr mewn meysydd datganoledig. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth newydd y DU i edrych ar sut y gall Deddf Marchnad Fewnol y DU barchu datganoli yn well, fel rhan o'r adolygiad statudol o'r Ddeddf yn 2025.

## Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ryngweithiad y Bil â fframweithiau polisi cyffredin y DU ac ymrwymo i ddarparu asesiad o'r fath mewn unrhyw gydsyniad deddfwriaethol atodol a osodwyd mewn perthynas â'r Bil.

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Bydd y rhyngweithio â fframweithiau cyffredin yn dibynnu ar ganlyniad trafodaethau ynghylch pwerau dirprwyedig. Bydd y rhyngweithio â fframweithiau cyffredin unigol hefyd yn dibynnu ar y modd yr honnir bod y pwerau dirprwyedig yn cael eu harfer.